

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r: Cabinet

Dyddiad y Cyfarfod: 14 Chwefror 2023

Teitl: Arolwg Chwaraeon Ysgol 2022 Chwaraeon Cymru

Pwrpas yr adroddiad: Rhoi gwybod i'r aelodau am y prif ganfyddiadau ar gyfer Ceredigion o Arolwg Chwaraeon Ysgol 2022 Chwaraeon Cymru.

Er: Er gwybodaeth

Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet: Y Cyngorydd Catrin M.S. Davies, Aelod Cabinet dros Ddiwylliant, Hamdden a Gwasanaethau Cwsmeriaid

CEFNDIR:

Mae Arolwg Chwaraeon Ysgol Chwaraeon Cymru yn rhoi cipolwg ar lefelau gweithgarwch a llesiant pobl ifanc yng Nghymru. Mae'r arolwg yn rhoi gwybodaeth i awdurdodau lleol a'r sector am lefelau cyfranogi, ymddygiad ac agweddau pobl ifanc yng Nghymru.

Eleni, roedd yr arolwg yn bwysicach nag erioed gan ei fod yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar effaith pandemig Covid-19 ar arferion gweithgarwch pobl ifanc. Cafodd yr arolwg ei gynnal cyn hyn yn 2013, 2015 a 2018 gan roi data ynghylch tueddiadau ar gyfer rhai mesurau, a cheir tabl sy'n rhoi data o'r 4 arolwg blaenorol yn yr atodiadau. Gellir gweld copïau o Adroddiadau Sir Ceredigion o 2018 a 2022 yn llawn yn yr Atodiadau.

Eleni, cyfranogodd 116,038 o ddisgyblion o fwy na 1,000 o ysgolion yng Nghymru, a chyfrannodd Ceredigion 2,762 o'r ymatebion hynny (1,288 Cynradd a 1,373 Uwchradd).

Mae Chwaraeon Cymru yn darparu adroddiadau ysgolion a sir o'r canfyddiadau sydd wedi'u strwythuro o amgylch y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru - 'cenedl actif, lle gall pawb fwynhau chwaraeon a gweithgarwch corfforol am oes.

Dosberthir y canlyniadau yn 4 prif adran, sef:

1. Cenedl Actif
2. Pawb
3. Gydol Oes
4. Mwynhad

Mae rhai o'r prif ganfyddiadau o bob adran yn adroddiad Sir Ceredigion 2022 fel a ganlyn:

Cenedl Actif

1. **Yng Ngheredigion, cymerodd 40% o blant ran mewn chwaraeon y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith neu fwy yr wythnos.** Mae hyn yn cymharu â 40% ledled Canolbarth Cymru (Powys a Cheredigion) a 39% ledled Cymru.
2. **Nododd 67% o blant yng Ngheredigion eu bod wedi cymryd rhan mewn chwaraeon o leiaf unwaith yr wythnos** o gymharu â 67% ledled Canolbarth Cymru a 64% ledled Cymru.
3. **Cymerodd 42% o ddisgyblion yng Ngheredigion ran mewn chwaraeon allgyrsiol (h.y. amser cinio neu glwb ar ôl ysgol) yn rheolaidd (o leiaf unwaith yr wythnos) ym mlwyddyn ysgol 2021/22** o gymharu â 41% ledled Canolbarth Cymru a 40% ledled Cymru.
4. **Cymerodd 59% o ddisgyblion ran mewn chwaraeon mewn clwb cymunedol o leiaf unwaith yr wythnos** o gymharu â 59% ledled Canolbarth Cymru a 56% ledled Cymru.
5. **Nododd 58% o ddisgyblion yng Ngheredigion hefyd eu bod yn aelodau o glwb chwaraeon** o gymharu â 59% ledled Canolbarth Cymru a 54% ledled Cymru.
6. **Darpariaeth Addysg Gorfforol:** Mae Chwaraeon Cymru eisoes wedi argymhell bod ysgolion yn cynnig 120 munud o Addysg Gorfforol i ddisgyblion bob wythnos. **Yng Ngheredigion, cynigiwyd 113 munud ar gyfartaledd i ddisgyblion ysgolion cynradd, a chynigiwyd 102 munud ar gyfartaledd i ddisgyblion ysgolion uwchradd.** O gymharu, roedd cyfartaledd o 93 munud yn cael eu cynnig i ddisgyblion ysgolion Cynradd ledled Cymru, a 93 munud ar gyfartaledd i ddisgyblion ysgolion Uwchradd ledled Cymru.
7. **Chwaraeon: Yng Ngheredigion, y chwaraeon yr oedd y rhan fwyaf o ferched yn cymryd rhan ynddo oedd Rhedeg neu Loncian a phêl-droed oedd y chwaraeon yr oedd y rhan fwyaf o fechgyn yn cymryd rhan ynddo**

Pawb

8. **Rhywedd:** Yn hanesyddol, bu bwlch mewn cyfranogiad chwaraeon ledled Cymru, gyda merched yn adrodd yn gyson am lai o gyfranogiad mewn chwaraeon na'u cymheiriaid gwrywaidd. Hefyd, mae disgyblion nad ydynt yn uniaethu fel dyn neu fenyw yng Nghymru yn nodi eu bod yn cyfranogi hyd yn oed yn llai aml mewn chwaraeon. **Yng Ngheredigion, cyfranogodd 45% o fechgyn mewn chwaraeon trefnus y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith neu fwy yr wythnos o gymharu â 37% o ferched.** Yn y cyfamser yng Nghanolbarth Cymru, cyfranogodd 42% o fechgyn a 38% o ferched mewn chwaraeon trefnus y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith neu fwy yr wythnos.
9. **Anabledd neu Amhariad:** Gwelwyd bwlch sy'n lleihau yng nghyfranogiad chwaraeon unigolion ag anabledd neu amhariad a'r rhai heb anabledd neu amhariad. **Yng Ngheredigion, cyfranogodd 35% o ddisgyblion ag anabledd neu amhariad mewn 3 chwaraeon trefnus y tu allan i'r cwricwlwm**

deirgwaith neu fwy yr wythnos o gymharu â 41% o ddisgyblion heb anabled neu amhariad. O gymharu, cyfranogodd 33% o ddisgyblion ag anabled neu amhariad mewn chwaraeon trefnus y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith neu fwy yr wythnos ledled Canolbarth Cymru, a 35% ledled Cymru.

10. **Y Gymraeg:** Gellir defnyddio chwaraeon i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. **Cyfranogodd 46% o'r rhai sy'n siarad Cymraeg yng Nghanolbarth Cymru mewn chwaraeon trefnus y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith neu fwy yr wythnos o gymharu â dim ond 33% o'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg.** O'r rhai sy'n siarad Cymraeg, mae 25% yn derbyn hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg y tu allan i'r ysgol.
11. **Amddifadedd Economaidd-Gymdeithasol:** Gwelodd pandemig COVID-19 nifer o anghydraddoldebau cymdeithasol yn cael eu dwysáu gan gynnwys y rheiny a oedd yn effeithio ar chwaraeon. Mae Chwaraeon Cymru yn defnyddio Cinio Ysgol am Ddim (PYaDd) fel mesur o amddifadedd economaidd-gymdeithasol, gyda PYaDd1 yn cyfrif am y lleiaf a PYaDd4 yn cyfrif am y mwyaf difreintiedig. **Cyfranogodd 44% o ddisgyblion PYaDd1 yng Ngheredigion mewn chwaraeon trefnus y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith neu fwy yr wythnos o gymharu â 18% yn PYaDd4.** Yn y cyfamser, cyfranogodd 47% o ddisgyblion PYaDd1 a 32% o PYaDd4 o ddisgyblion yng Nghymru mewn chwaraeon trefnus y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith neu fwy yr wythnos.

Gydol Oes

12. **Ffordd o Fyw Iach:** Mae'r cwricwlwm ysgol newydd i Gymru yn pwysleisio bod datblygu iechyd a lles corfforol yn dod â manteision gydol oes'. **Mae 58% o ddisgyblion yng Ngheredigion yn credu bod gwersi AG a chwaraeon yn eu helpu 'yn fawr' i gael ffordd o fyw iach,** o gymharu â 50% yng Nghanolbarth Cymru a 51% ledled Cymru.
13. **Yng Ngheredigion, cyfranogodd 40% o ddisgyblion ym mlynnyddoedd 5-6 mewn chwaraeon trefnus y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith neu fwy yr wythnos** o gymharu â 42% o ddisgyblion ym mlynnyddoedd 7-9 a 43% o ddisgyblion ym mlynnyddoedd 10-11, yn y drefn honno.
14. **Y Galw Diweddaraf:** Un ffordd y gallwn ymateb i anghenion yw drwy weithredu ar alw cudd. Galw cudd yw pan fydd disgyblion yn dweud yr hoffent wneud mwy o gamp benodol. **Yng Ngheredigion, roedd y galw mwyaf ymhlith merched am nofio a'r galw mwyaf ymhlith bechgyn am bêl-droed.** O'r disgyblion a ymatebodd i'r arolwg yng Ngheredigion, hoffai 96% o ddisgyblion wneud mwy o chwaraeon o gymharu â 95% ledled Canolbarth Cymru a 93% ledled Cymru.

Mwynhad

15. **Yng Ngheredigion yn 2022, roedd 61% o ddisgyblion yn mwynhau AG 'yn fawr'** o gymharu â 59% yng Nghanolbarth Cymru a 57% ledled Cymru. **Yn y cyfamser, roedd 45% o ddisgyblion yn mwynhau chwaraeon allgyrsiol 'yn fawr' yng Ngheredigion yn 2022.** O gymharu, roedd 43% o ddisgyblion yng Nghanolbarth Cymru a 40% o ddisgyblion ledled Cymru yn mwynhau chwaraeon allgyrsiol 'yn fawr'.

16. **Roedd 49% a 61% o ddisgyblion yng Ngheredigion yn mwynhau clybiau cymunedol a chwaraeon anffurfiol 'yn fawr', yn y drefn honno.** Yn y cyfamser, roedd 49% yng Nghanolbarth Cymru a 47% ledled Cymru yn mwynhau chwaraeon clybiau cymunedol 'yn fawr', a 60% yng Nghanolbarth Cymru a 57% ledled Cymru yn mwynhau chwaraeon anffurfiol 'yn fawr'.
17. **Hyder:** Mae hyder pobl ifanc i gymryd rhan mewn cyfleoedd chwaraeon newydd yn cael effaith fawr ar eu cyfranogiad mewn chwaraeon. Dangosodd Arolwg Chwaraeon Cymru 2018 bod disgyblion sy'n hyderus iawn wrth roi cynnig ar weithgarwch newydd ddwywaith yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos. **Yng Ngheredigion, teimlai 74% o ddisgyblion naill ai'n eithaf hyderus neu hyderus iawn wrth roi cynnig ar chwaraeon newydd** o gymharu â 72% yng Nghanolbarth Cymru a 69% ledled Cymru.

Casgliadau

1. Yn gyffredinol, mae canran lefelau cyfranogiad pobl ifanc yng Ngheredigion gyfwerth â lefelau rhanbarthol (Canolbarth Cymru) a rhai cenedlaethol, neu ychydig yn uwch na nhw.
2. Bu ychydig o effaith negyddol sylweddol yn genedlaethol ar bob dangosydd perfformiad ers 2018. Cynyddodd lefelau gweithgarwch corfforol yn gyson o 2011 i 2015 ac eto yn 2018. Ers 2018, mae nifer o ddangosyddion wedi gostwng o 10% neu fwy yng Ngheredigion ac yn genedlaethol. Priodolwyd hyn gan Chwaraeon Cymru i bandemig Covid-19.
3. Mae patrymau tebyg yn arolygon 2011, 2015 a 2018 o ran cyfranogiad yn ôl rhywedd gyda bechgyn yn gyffredinol ychydig yn fwy actif na merched.
4. Mae cyfranogiad mewn Clwb Cymunedol yn parhau'n gryf gyda chyfranogiad mewn clwb cymunedol ac aelodaeth o glwb cymunedol yn uwch nag ar lefel ranbarthol a chenedlaethol.
5. Mae patrymau tebyg yn arolwg 2011, 2015 a 2018 o ran y math o chwaraeon, gyda chwaraeon/loncian, pêl-droed, nofio, seiclo, pêl-fasged a dawns yn boblogaidd.
6. Mae dealltwriaeth dda bod manteision yn dod i iechyd a lles yn yr hirdymor drwy fod yn actif, ac mae hyn wedi para ers 2018.
7. Mae'r disgyblion hynny yng nghategori PYaDd4 yn llai tebygol o fod yn actif na'r rhai yng nghategori PYaDd1. Mae hon yn duedd genedlaethol.
8. Codwyd cyfyngiadau Covid yng Ngheredigion ychydig yn hwyrach nag ardaloedd eraill ond mae'r lefelau cyfranogi wedi aros ychydig yn uwch na lefelau rhanbarthol a chenedlaethol.

Y Sefyllfa Bresennol

Mewn ymateb i'r canfyddiadau, mae'r Gwasanaeth Chwarae a Gweithgarwch

Corfforol yn blaenoriaethu'r camau gweithredu a ganlyn ar hyn o bryd:

- Cynnig sesiynau mentora a hyfforddiant Llysgennad Ifanc Efydd i fwy na 100 o bobl ifanc. Bydd hyn yn caniatáu i weithgareddau allgyrsiol gael eu cyflenwi ym mhob ysgol gynradd yng Ngheredigion.
- Cynnig sesiynau wythnosol cynhwysol 'Chwarae i Bawb' mewn 5 uned ADY mewn Ysgolion Uwchradd. Dros 60 o bobl ifanc ag anableddau yn ymwneud mewn sesiynau wythnosol. Hyfforddi 14 Llysgennad Ifanc ag anableddau dysgu yn Llysgenhadon Ifanc.
- Cyflenwi gweithgareddau a gwyliau mewn ysgolion wedi'u targedu at flynyddoedd 3 a 4.
- Datblygu darpariaeth wedi'i thargedu at ddisgyblion uwchradd yn unol ag adroddiad unigol pob ysgol ar Arolwg Chwaraeon Ysgol.
- Datblygu sesiynau i ferched yn unig mewn gweithgareddau fel dawnys a phêl-droed.
- Cynnig grant o hyd at £1500 i alluogi i ysgolion uwchradd ehangu eu cynnig am weithgarwch allgyrsiol.
- Hyrwyddo ail rownd y prosiect Marcio Caeau Chwarae - gyda 12 ysgol arall i gael eu hariannu (17 ysgol eisoes wedi'u marcio)
- Datblygu prosiect Chwarae newydd mewn ysgolion mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Ysgolion ac Ysgolion Iach.

Oes Aseiad Effaith Integredig Na, adroddiad er
wedi ei gwblhau? Os na, gwybodaeth yn unig yw
esboniwch pam hwn.

Crynodeb:

Hirdymor: **Cadarnhaol:** Mae'r arolwg chwaraeon ysgol yn darparu data ynghylch tueddiadau ar gyfer y sir o 2013

Cydweithio: **Cadarnhaol:** Mae'r arolwg chwaraeon ysgol yn cydnabod cyfraniad sefydliadau cymunedol i gael ein pobl ifanc yn gorfforol egniol

**Llesiant
Cenedlaethau'r
Dyfodol:**

Cynnwys: **Cadarnhaol:** Llywiyd y canfyddiadau hyn gan 2,762 o bobl ifanc o Geredigion

Atal: **Cadarnhaol:** Gall codi lefelau gweithgarwch corfforol wella iechyd a lles

Integreiddio: **Cadarnhaol:** Mae creu Cymunedau Iachach a Gofalgar yn amcan lesiant yn y strategaeth gorfforaethol newydd. Mae codi lefelau gweithgarwch corfforol yn gyfrannydd hanfodol i wella iechyd a lles.

Argymhelliad:	Bod y Cabinet yn nodi ac yn derbyn cynnwys adroddiad Arolwg Chwaraeon Ysgol 2022 Chwaraeon Cymru.
Rheswm dros y penderfyniad:	Mae Arolwg Chwaraeon Ysgol 2022 Chwaraeon Cymru yn dod gerbron y Cabinet er gwybodaeth ac i godi ymwybyddiaeth yr aelodau o gyfranogiad plant a phobl ifanc y sir mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol ar hyn o bryd.
Trosolwg a Chraffu:	Roedd Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach wedi derbyn yr adroddiad er gwybodaeth ar 23 Ionawr 2023.
Fframwaith Polisi:	Strategaeth Gorfforaethol Ceredigion 2022-27
Amcanion Llesiant Corfforaethol:	<ul style="list-style-type: none"> • Creu cymunedau gofalgwr ac iach • Darparu'r Dechrau Gorau Mewn Bywyd a Galluogi Pobl o Bob Oed i Ddysgu
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Dim
Goblygiadau cyfreithiol:	Dim
Goblygiadau staffio:	Dim
Goblygiadau eiddo / asedau:	Dim
Risg(iau):	Dim
Pwerau Statudol:	
Papurau Cefndir:	Dim
Atodiadau:	(A) Tabl yn cymharu data Arolwg ar Chwaraeon Ysgol (B) Adroddiad Ceredigion: Arolwg ar Chwaraeon Ysgol 2022 (C) Adroddiad Ceredigion: Arolwg ar Chwaraeon Ysgol 2018
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Elen James: Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cymorth Cynnar
Swyddog Adrodd:	Carwyn Young a Alwyn Davies
Dyddiad:	27.01.2023

ATODIAD A

AROLWG CHWARAEON YSGOL CHWARAEON CYMRU 2013-2022 - TABL CYMHARU DATA

Mesur	Ceredigion 2013	Cyfartaledd Cymru 2013	Ceredigion 2015	Cyfartaledd Cymru 2015	Ceredigion 2018	Cyfartaledd Cymru 2018	Ceredigion 2022	Cyfartaledd Cymru 2022						
Penawdau														
Canran y plant sy'n cyfranogi mewn chwaraeon allgyrsiol fwy na theirgwaith yr wythnos	40%	40%	49%		48%	52%		48%	40%		39%			
			Bechgyn	Merched		Bechgyn	Merched		Bechgyn	Merched	Bechgyn	Merched		
			50%	48%		54%	51%		50%	46%	45%	37%	43%	36%
Canran y disgyblion a gyfranogodd yn rheolaidd mewn chwaraeon (cyfranogi o leiaf unwaith yr wythnos ar gyfartaledd).	82%	76%	Ddim ar gael		Ddim ar gael		74%		66%		67%		64%	
Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol														
Yn eich tyb chi, faint mae gwersi Addysg Gorfforol a chwaraeon ysgol yn eich helpu i gael ffordd o fyw iach?	54%	52%	66%		62%		59%		56%		58%		51%	
Cyfartaledd munudau o Addysg Gorfforol yr wythnos	103	101	Ddim ar gael		Ddim ar gael		Cynradd	Uwchradd	99		Cynradd	Uwchradd		
			109	105	113	102	93	93						
Canran y disgyblion a nododd eu bod yn mwynhau Addysg Gorfforol 'yn fawr'	65%	60%	70%		65%		64%		51%		61%		57%	
									Bechgyn	Merched				
									71%	55%				
Gwethgareddau yn y Gymuend														
Canran y disgyblion a gyfranogodd yn rheolaidd mewn chwaraeon mewn clwb y tu allan i'r ysgol.	55%	55%	66%		63%		69%		65%		59%		56%	
Canran y disgyblion sy'n aelodau o glwb chwaraeon ac sy'n cyfranogi mewn chwaraeon.	56%	53%	62%		57%		63%		59.5%		58%		54%	
Pa mor hyderus ydych chi wrth roi cynnig ar weithgareddau newydd?	73%	74%	82%		79%		80%		80%		74%		69%	
							Bechgyn	Merched			Bechgyn	Merched		
							84%	76%			82%	69%		

sportwales
chwaraeoncymru



20
22

**School Sport
Survey**

**Arolwg ar
Chwaraeon Ysgol**




Adroddiad Ceredigion

2022

Ystadegau Allweddol ar gyfer Ceredigion



o ddisgyblion wedi cymryd rhan mewn chwaraeon trefnus y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith neu fwy yr wythnos *



o ddisgyblion yn teimlo bod eu syniadau am AG yn cael sylw 'bob amser'



o ddisgyblion yn credu bod AG a chwaraeon yn eu helpu 'yn fawr' i gael ffordd o fyw iach



Roedd bechgyn yn cymryd rhan yn bennaf mewn


Pêl Droed



Roedd merched yn cymryd rhan yn bennaf mewn

Rhedeg neu Loncian

Roedd y cyfranogiad ar ei uchaf ar gyfer:



*Mae chwaraeon trefnus yn cyfeirio at unrhyw gyfranogiad allgyrsiol neu mewn clwb cymunedol.

Cyflwyniad

Ar ôl cael ei ohirio oherwydd pandemig COVID-19, mae'r Arolwg Chwaraeon Ysgol yn ôl! Eleni, cymerodd 116,038 o ddisgyblion o 1,000 o ysgolion yng Nghymru ran.

Yn yr adroddiad hwn rydym wedi casglu'r hyn wnaethom ei ddysgu am ddisgyblion yng Ngheredigion, lle dywedodd 2,762 o ddisgyblion wrthym am eu profiadau o chwaraeon eleni.

Rydym wedi strwythuro'r adroddiad hwn o amgylch y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru¹ – 'cenedl actif lle gall pawb gael mwynhad oes o chwaraeon'. Rydym eisiau i gynifer o bobl â phosibl gael eu hysbrydoli i fod yn actif drwy chwaraeon, lle mae pawb yn teimlo y gallant gymryd rhan, dim ots beth yw eu cefndir chwaraeon, mewn tirlun chwaraeon sy'n ymateb i anghenion pobl ar wahanol adegau yn eu bywyd, i greu ystod eang o brofiadau cadarnhaol.



Mae'r adroddiad hwn wedi'i drefnu mewn pedair adran



Cenedl Actif



Pawb



Gydol Oes



Mwynhad

Drwy ddefnyddio'r rhain fel sail i'n hadroddiad, gallwch weld sut mae Ceredigion yn cyfrannu at y Weledigaeth, a lle gallai fod lle i wneud pethau'n wahanol. Darperir cymariaethau â Chanolbarth Cymru a Chymru drwyddo draw.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys data allweddol a all eich helpu chi a'ch ysgolion i wella eu darpariaeth chwaraeon. Gobeithio y bydd y dystiolaeth yn yr adroddiad hwn yn eich galluogi i ddeall y tirlun chwaraeon ar gyfer pobl ifanc yng Ngheredigion a ledled Cymru yn well, ac y bydd yn eich cynorthwyo i gyfoethogi bywydau eich disgyblion.

Yn gywir

Brian Davies, Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro

¹ www.visionforsport.wales

Cenedl actif




Y weledigaeth ar gyfer chwaraeon yng Nghymru yw creu cenedl egniol. Rydyn ni eisiau i gymaint o bobl â phosibl gael eu hysbrydoli i fod yn egniol trwy chwaraeon.

Amledd y cymryd rhan


Mae cyfran y plant sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon trefnus y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith neu fwy yr wythnos yn ddangosydd ar gyfer Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Yng Ngheredigion roedd 40% o blant yn cymryd rhan mewn chwaraeon y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith neu fwy yr wythnos. Mae hyn o gymharu â 40% ledled Canolbarth Cymru a 39% ledled Cymru.

Cyfranogiad mewn chwaraeon trefnus y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith neu fwy yr wythnos



Mae 33% o ddisgyblion yng Ngheredigion yn adrodd nad ydynt yn cymryd rhan yn aml (h.y. llai nag unwaith yr wythnos), o gymharu â 33% ledled Canolbarth Cymru a 36% ledled Cymru. Dywedodd 67% yng Ngheredigion eu bod yn cymryd rhan mewn chwaraeon unwaith yr wythnos o leiaf, o gymharu â 67% ledled Canolbarth Cymru a 64% ledled Cymru.




Chwaraeon clwb allgyrsiol a chymunedol

Roedd 42% o ddisgyblion Ceredigion yn cymryd rhan mewn chwaraeon allgyrsiol (h.y., clwb amser cinio neu ar ôl ysgol) yn aml (unwaith yr wythnos o leiaf) ym mlwyddyn ysgol 2021-22, o gymharu â 41% ledled Canolbarth Cymru a 40% ledled Cymru.

Cymerodd 59% o ddisgyblion ran mewn chwaraeon mewn clwb cymunedol unwaith yr wythnos o leiaf, o gymharu â 59% ledled Canolbarth Cymru a 56% ledled Cymru.


Dywedodd 58% o ddisgyblion yng Ngheredigion hefyd eu bod yn aelodau o glwb chwaraeon, o gymharu â 59% ledled Canolbarth Cymru a 54% ledled Cymru.



Gwirfoddoli


Gall disgyblion weithio tuag at genedl actif hefyd drwy helpu i gyflwyno chwaraeon. Gofynnwyd i ddisgyblion a ydynt yn gwirfoddoli neu'n helpu gyda chwaraeon yn yr ysgol neu yn eu cymuned.

Dywedodd 29% o ddisgyblion yng Ngheredigion eu bod ar hyn o bryd yn gwirfoddoli o fewn neu'r tu allan i'r ysgol mewn rhyw ffordd, o gymharu â 27% ledled Canolbarth Cymru a 24% ledled Cymru.



Darpariaeth AG

Argymhellwyd yn flaenorol bod ysgolion yn cynnig 120 munud o AG yr wythnos i ddisgyblion. Yng Ngheredigion, cynigiwyd 113 munud ar gyfartaledd i ddisgyblion ysgolion cynradd, a chynigiwyd 102 munud ar gyfartaledd i ddisgyblion ysgolion uwchradd. O gymharu, roedd 93 munud ar gyfartaledd ar gael i ddisgyblion cynradd ledled Cymru, a 93 munud ar gyfartaledd ar gael i ddisgyblion ysgolion uwchradd ledled Cymru.



Eleni, fe wnaethom ofyn i ysgolion hefyd faint o'r amser a neilltuir i AG oedd yn cael ei dreulio ar weithgareddau eraill, fel newid a pharatoi gweithgaredd. Yng Ngheredigion, dywedodd 51% o ysgolion cynradd a 100% o ysgolion uwchradd bod rhywfaint o'r amser a neilltuir i AG yn cael ei dreulio ar weithgareddau eraill. O gymharu, dywedodd 45% o ysgolion cynradd a 89% o ysgolion uwchradd yng Nghanolbarth Cymru, a 40% o ysgolion cynradd ac 80% o ysgolion uwchradd yng Nghymru, bod rhywfaint o'r amser a neilltuir i AG yn cael ei dreulio ar weithgareddau eraill.

Y chwaraeon mwyaf poblogaidd

Mae gwahaniaethau o ran rhywedd ym mhoblogrwydd chwaraeon penodol. Yng Ngheredigion, y gamp y cymerwyd rhan ynddi fwyaf ymhlith y merched oedd Rhedeg neu Loncian a'r gamp y cymerwyd rhan ynddi fwyaf ymhlith y bechgyn oedd Pêl Droed. Mae crynodeb o'r chwaraeon mwyaf poblogaidd yng Ngheredigion, Canolbarth Cymru a Chymru i'w weld yn atodiad A.

Merched



Bechgyn



Pawb




Mae'r weledigaeth ar gyfer pawb. O bobl nad ydynt yn ystyried eu hunain fel rhai medrus mewn chwaraeon i bobl sy'n ennill medalau, ar draws yr holl ddemograffeg.

Rhywedd

Yn hanesyddol, bu bwlch mewn cyfranogiad chwaraeon ledled Cymru, gyda merched yn adrodd yn gyson am lai o gyfranogiad mewn chwaraeon na'u cyfoedion gwrywaidd. Hefyd, mae cyfranogiad ymhlith plant nad ydynt yn ystyried eu hunain fel gwryw neu fenyw yng Nghymru yn nodweddiadol is o hyd.

Yng Ngheredigion roedd 45% o fechgyn yn cymryd rhan mewn chwaraeon trefnus y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith neu fwy yr wythnos, o gymharu â 37% o ferched. Yn y cyfamser yng Nghanolbarth Cymru, roedd 42% o fechgyn a 38% o ferched yn cymryd rhan mewn chwaraeon trefnus y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith neu fwy yr wythnos.


Cyfranogiad mewn chwaraeon trefnus y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith neu fwy yr wythnos ar gyfer bechgyn a merched




Anabledd neu Nam

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd llai o fwllch mewn cyfranogiad chwaraeon rhwng unigolion ag anabledd neu nam, a'r rhai heb anabledd neu nam. Yng Ngheredigion, roedd 35% o ddisgyblion ag anabledd neu nam yn cymryd rhan mewn chwaraeon trefnus y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith neu fwy yr wythnos, o gymharu â 41% o ddisgyblion heb anabledd neu nam.

Cyfranogiad mewn chwaraeon trefnus y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith neu fwy yr wythnos gan ddisgyblion heb anabledd neu nam



Cyfranogiad mewn chwaraeon trefnus y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith neu fwy yr wythnos gan ddisgyblion ag anabledd neu nam




O gymharu, cymerodd 33% o ddisgyblion ag anabledd neu nam ran mewn chwaraeon trefnus y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith yr wythnos neu fwy ledled Canolbarth Cymru, a 35% ledled Cymru².

² Oherwydd data annigonol ar lefelau daearyddol is, dim ond ar lefel Cymru y mae data ysgolion arbennig yn cael eu cynnwys, ac nid ar lefel Partneriaeth Chwaraeon Ranbarthol / Awdurdod Lleol.

Y Gymraeg

Gellir defnyddio chwaraeon i hybu'r defnydd o'r Gymraeg. Roedd 46% o'r rhai sy'n siarad Cymraeg yng Nghanolbarth Cymru yn cymryd rhan mewn chwaraeon trefnus y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith neu fwy yr wythnos, o gymharu â dim ond 33% o'r rhai nad oeddent yn siarad Cymraeg. O blith y rhai sy'n siarad Cymraeg, mae 25% yn derbyn hyfforddiant yn y Gymraeg y tu allan i'r ysgol.




Amddifadedd economaidd-gymdeithasol


Gwelodd pandemig COVID-19 lawer o anghydraddoldebau cymdeithasol yn gwaethygu, gan gynnwys y rhai sy'n effeithio ar chwaraeon.

Rydym yn defnyddio Prydau Ysgol Am Ddim (PYADd) fel mesur o amddifadedd economaidd-gymdeithasol, gyda PYADd1 yn cyfrif am y lleiaf a PYADd4 yn cyfrif am y mwyaf difreintiedig.

Mae 44% o ddisgyblion PYADd1 yng Ngheredigion yn cymryd rhan mewn chwaraeon trefnus y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith neu fwy yr wythnos, o gymharu â 18% yn PYADd4. Yn y cyfamser, mae 47% o ddisgyblion PYADd1 a 32% o ddisgyblion PYADd4 yng Nghymru yn cymryd rhan mewn chwaraeon trefnus y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith neu fwy yr wythnos.



Ethnigrwydd



Sylwer: Mae “-” yn cynrychioli llai na 30 o ymatebion wedi’u pwysoli, sy’n golygu na allwn adrodd yn fanwl gywir ar y ffigur %.

Gydol Oes




Mae'r weledigaeth am oes. Mae'n ymateb i anghenion pobl mewn gwahanol gyfnodau yn eu bywyd.

Effaith grwpiau blwyddyn

Mae cyfranogiad mewn chwaraeon yn amrywio gyda grwpiau blwyddyn, gan amlaf yn cyrraedd uchafbwynt pan fydd myfyrwyr ym mlynnyddoedd 5 a 6, ac wedyn yn gostwng yn gyffredinol o'r fan honno.


Yng Ngheredigion, roedd 40% o ddisgyblion ym mlynnyddoedd 5 i 6 yn cymryd rhan mewn chwaraeon trefnus y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith neu fwy yr wythnos, o gymharu â 42% o ddisgyblion ym mlynnyddoedd 7 i 9 a 43% o ddisgyblion ym mlynnyddoedd 10 i 11, yn y drefn honno.

Cyfranogiad mewn chwaraeon trefnus y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith neu fwy yr wythnos yn ôl grŵp blwyddyn



Ffordd o fyw iach


Mae'r cwricwlwm ysgol newydd i Gymru yn pwysleisio bod 'datblygu iechyd a lles corfforol yn arwain at fanteision gydol oes'. Teimlai 58% o ddisgyblion yng Ngheredigion bod gwersi AG a chwaraeon yn eu helpu 'yn fawr' i gael ffordd o fyw iach, o gymharu â 50% yng Nghanolbarth Cymru a 51% ledled Cymru.




Ymateb i anghenion

Er mwyn gallu gwneud chwaraeon yn weithgaredd gydol oes, mae angen i ni allu ymateb i anghenion a dymuniadau disgyblion, gan gydnabod rhwystrau i gyfranogiad. Y prif ymatebion gan ddisgyblion Canolbarth Cymru i'r datganiad 'Byddwn yn gwneud mwy o chwaraeon pe bai...!' oedd 'pe bai mwy o gyfleoedd chwaraeon a oedd yn fy siwtio i' i fechgyn a 'Pe bai gen i fwy o amser' i ferched, a'r prif ymatebion ledled Cymru oedd 'pe bai mwy o gyfleoedd chwaraeon a oedd yn fy siwtio i' i fechgyn a 'Pe bai gen i fwy o amser' i ferched. Mae'r ddau ffigur a ganlyn yn dangos y prif ymatebion gan ferched a bechgyn yng Ngheredigion.

Y prif ymatebion gan ferched i'r datganiad "Byddwn yn gwneud mwy o chwaraeon pe bai..." oedd



Y prif ymatebion gan fechgyn i'r datganiad "Byddwn yn gwneud mwy o chwaraeon pe bai..." oedd



Galw cudd

Un ffordd y gallwn ymateb i anghenion yw drwy weithredu ar alw cudd. Galw cudd yw pan fydd disgyblion yn dweud yr hoffent wneud mwy o gamp benodol. Yng Ngheredigion, roedd y galw mwyaf ymhlith y merched am Nofio a'r galw mwyaf ymhlith y bechgyn am Bêl Droed. O blith y disgyblion a ymatebodd i'r arolwg yng Ngheredigion, hoffai 96% o ddisgyblion wneud mwy o chwaraeon, o gymharu â 95% ledled Canolbarth Cymru a 93% ledled Cymru.

Mae'r ffigur a ganlyn yn dangos y chwaraeon sydd â'r galw cudd uchaf ymhlith merched a bechgyn yng Ngheredigion, a gellir gweld crynodeb o'r galw cudd ar draws Ceredigion, Canolbarth Cymru a Chymru yn atodiad C.

Merched



Bechgyn



Un ffordd arall y gallwn ymateb i anghenion disgyblion yw drwy weithredu ar alw heb ei fodloni. Galw heb ei fodloni yw lle hoffai disgyblion wneud camp nad ydynt yn cymryd rhan ynddi ar hyn o bryd. Gellir gweld y galw heb ei fodloni gan ddisgyblion Ceredigion yn Atodiad E.

Mwynhad




Mae'r weledigaeth yn canolbwyntio ar greu amrywiaeth eang o brofiadau cadarnhaol fel bod pawb yn gallu mwynhau chwaraeon.


Dangosodd Arolwg Chwaraeon Ysgol 2018 bod disgyblion bron ddwywaith yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon trefnus y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith neu fwy yr wythnos os ydynt yn mwynhau chwaraeon ysgol 'yn fawr'.

Yng Ngheredigion yn 2022, roedd 61% o ddisgyblion yn mwynhau AG 'yn fawr', o gymharu â 59% yng Nghanolbarth Cymru a 57% ledled Cymru. Yn y cyfamser, roedd 45% o ddisgyblion yn mwynhau chwaraeon allgyrsiol 'yn fawr' yng Ngheredigion yn 2022. O gymharu, roedd 43% o ddisgyblion yng Nghanolbarth Cymru a 40% o ddisgyblion ledled Cymru yn mwynhau chwaraeon allgyrsiol 'yn fawr'.

Disgyblion oedd yn mwynhau chwaraeon 'yn fawr'



Gall mwynhad a phrofiadau da o chwaraeon yn yr ysgol arwain at gyfranogiad y tu allan i'r ysgol, a gall helpu i feithrin arfer o ffordd o fyw iach ac actif. Roedd 49% a 61% o ddisgyblion yng Ngheredigion yn mwynhau chwaraeon clwb cymunedol a chwaraeon anffurfiol 'yn fawr', yn y drefn honno. Yn y cyfamser, roedd 49% yng Nghanolbarth Cymru a 47% ledled Cymru yn mwynhau chwaraeon clwb cymunedol 'yn fawr', a 60% yng Nghanolbarth Cymru a 57% ledled Cymru yn mwynhau chwaraeon anffurfiol 'yn fawr'.



Yn hanesyddol, mae mwynhau chwaraeon yn un o'r meysydd hynny lle rydym yn aml yn gweld gwahaniaeth sylweddol rhwng bechgyn a merched. Yng Ngheredigion, roedd 71% o fechgyn yn mwynhau AG 'yn fawr', o gymharu â 55% o ferched.


Yn draddodiadol, mae disgyblion sydd yn teimlo bod rhywun yn gwrando ar eu llais 'bob amser' yn fwy tebygol o gymryd rhan yn amlach mewn chwaraeon a mwynhau AG a chwaraeon yn yr ysgol. Yng Ngheredigion, dywedodd 16% o ddisgyblion bod pobl yn gwrando ar eu syniadau 'bob amser', a dywedodd 48% bod pobl yn gwrando ar eu syniadau 'weithiau'. O gymharu â Chanolbarth Cymru, dywedodd 13% bod rhywun yn gwrando ar eu syniadau 'bob amser', a dywedodd 48% bod rhywun yn gwrando ar eu syniadau 'weithiau'.

Mae hwn yn faes arall lle rydym yn gweld rhaniad rhwng y rhywiau yn gyffredin: yng Ngheredigion roedd 20% o fechgyn yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt 'bob amser', o gymharu â 12% o ferched. Mae patrwm tebyg i'w weld yng Nghanolbarth Cymru lle dywedodd 16% o fechgyn a 11% o ferched bod rhywun yn gwrando ar eu syniadau 'bob amser'.


Hyder

Mae hyder pobl ifanc i gymryd rhan mewn cyfleoedd chwaraeon newydd yn cael effaith fawr ar eu cyfranogiad mewn chwaraeon. Dangosodd Arolwg Chwaraeon Cymru 2018 bod disgyblion sy'n hyderus iawn wrth roi cynnig ar weithgareddau newydd ddwywaith yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos. Yng Ngheredigion, roedd 74% o ddisgyblion yn teimlo naill ai'n eithaf hyderus neu'n hyderus iawn wrth roi cynnig ar chwaraeon newydd, o gymharu â 72% yng Nghanolbarth Cymru a 69% ledled Cymru.

Hyder i roi cynnig ar chwaraeon newydd



Tra oedd 82% o fechgyn yng Ngheredigion yn teimlo naill ai'n hyderus iawn neu'n eithaf hyderus i roi cynnig ar chwaraeon newydd, 69% o ferched oedd yn teimlo'n debyg.



Casgliadau

Cenedl actif

- 40% o ddisgyblion yng Ngheredigion yn cymryd rhan mewn chwaraeon trefnus y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith neu fwy yr wythnos.
- Yng Ngheredigion, y gamp fwyaf poblogaidd ymhlith y bechgyn oedd Pêl Droed a'r gamp fwyaf poblogaidd ymhlith y merched oedd Rhedeg neu Loncian.

Pawb

Y grwpiau yng Ngheredigion â'r cyfraddau cymryd rhan uchaf oedd:

- Bechgyn
- Blwyddyn 11

Gydol oes

- 96% o ddisgyblion yng Ngheredigion eisiau gwneud mwy o chwaraeon.
- Y gamp yng Ngheredigion â'r galw mwyaf ymhlith y bechgyn yw Pêl Droed ac ymhlith y merched, Nofio.
- 58% o ddisgyblion yng Ngheredigion yn teimlo bod gwersi AG a chwaraeon yn eu helpu 'yn fawr' i gael ffordd o fyw iach.

Mwynhad

- 61% o ddisgyblion yng Ngheredigion yn mwynhau AG 'yn fawr'.
- 29% o ddisgyblion yng Ngheredigion yn teimlo yn 'hyderus iawn' i roi cynnig ar chwaraeon newydd.

Diolch yn fawr

Diolch i chi am ein helpu ni i gynnal yr Arolwg Chwaraeon Ysgol eleni. Gobeithio y bydd yr wybodaeth yn yr adroddiad hwn yn eich helpu chi i gynllunio ar gyfer y dyfodol, gan ystyried anghenion a phrofiadau pobl ifanc yng Ngheredigion a Canolbarth Cymru. Drwy gydweithio, gallwn gyflawni'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru, gan sicrhau bod chwaraeon yn hygyrch i bawb wrth greu cenedl wirioneddol actif.

Am ragor o wybodaeth, ewch i www.sport.wales/research-and-insight/school-sport-survey.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr arolwg neu'r adroddiad hwn, cysylltwch â: SchoolSportSurvey@sport.wales

Citbag

Ewch i Citbag, hwb gan Chwaraeon Cymru o gannoedd o adnoddau am ddim – yn cefnogi profiadau chwaraeon fel rhan o'r Cwricwlwm newydd i Gymru.

Ewch i <https://citbag.sport.wales/>



Atodiad A

Rhestr lawn o'r chwaraeon y cymerwyd rhan ynddynt unwaith o leiaf mewn unrhyw leoliad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

Camp	Ceredigion	Canolbarth Cymru	Cymru
Saethyddiaeth	25%	24%	21%
Athletau	32%	30%	27%
Badminton	33%	34%	30%
Pêl Fasged	48%	46%	50%
BMX	21%	23%	22%
Boccia	-	2%	2%
Bowlio	15%	18%	15%
Bocsio	13%	14%	18%
Canŵio a Chaiacio	33%	29%	21%
Crwydro Ogofâu	7%	10%	8%
Codi Hwyl Mewn Gemau	4%	5%	6%
Dringo Dan Do neu yn yr Awyr Agored	31%	31%	30%
Criced	34%	35%	31%
Cyrlio	2%	2%	2%
Beicio	70%	68%	59%
Dawns	40%	39%	38%
Pêl Osgoi	40%	38%	40%
Ffensio	3%	4%	4%
Hoci Maes	24%	22%	12%
Pysgota neu Enweirio	16%	17%	15%
Dosbarthiadau Ffitrwydd	26%	25%	25%
Pêl Droed	68%	67%	64%
Pêl Gôl	2%	2%	2%
Golff	28%	31%	30%
Gymnasteg	18%	18%	19%
Marchogaeth Ceffylau	24%	25%	17%
Hoci lâ	2%	2%	3%
Jiwdo	4%	6%	6%

Carate	11%	12%	13%
Lacrosse	1%	1%	2%
Achub Bywyd	10%	10%	10%
Chwaraeon Modur	26%	23%	19%
Beicio Mynydd	34%	32%	24%
Pêl Rwyd	32%	32%	27%
Padlfyrddio	32%	26%	20%
Parkour	21%	21%	24%
Pŵl neu Snwcer	43%	43%	40%
Chwaraeon Rholio	14%	15%	14%
Rownderi, Pêl Fas neu Bêl Feddal	41%	41%	33%
Rhwyfo	10%	9%	7%
Rygbi	45%	44%	37%
Rhedeg neu Loncian	76%	74%	71%
Hwyllo	6%	6%	6%
Sglefrfyrddio	21%	21%	22%
Chwaraeon Eira	10%	9%	8%
Sboncen	8%	10%	9%
Syrffio	18%	13%	13%
Nofio	68%	69%	62%
Tennis Bwrdd	38%	38%	35%
Saethu Targedau	16%	17%	14%
Tennis neu Dennis Byr	41%	41%	35%
Trampolinio	39%	41%	39%
Triathlon	5%	5%	5%
Pêl Foli	13%	14%	14%
Polo Dŵr	11%	11%	11%
Codi Pwysau	29%	25%	25%
Pêl Fasged Cadair Olwyn	3%	2%	2%
Rygbi Cadair Olwyn	-	1%	1%
Tennis Cadair Olwyn	-	1%	1%
Gwyntsyrrffio	3%	3%	3%
Reslo	10%	11%	11%

Sylwer: Mae “-” yn cynrychioli llai na 30 o ymatebion wedi’u pwysoli, sy’n golygu na allwn adrodd yn fanwl gywir ar y ffigur %.

Atodiad B

Rhestr lawn o'r chwaraeon y cymerwyd rhan ynddynt unwaith o leiaf mewn unrhyw leoliad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn ôl Rhywedd

Camp	Ceredigion	Merched (Ceredigion)	Bechgyn (Ceredigion)
Saethyddiaeth	25%	24%	26%
Athletau	32%	31%	33%
Badminton	33%	36%	31%
Pêl Fasged	48%	42%	56%
BMX	21%	14%	29%
Boccia	-	-	-
Bowlio	15%	15%	15%
Bocsio	13%	8%	18%
Canŵio a Chaiacio	33%	32%	34%
Crwydro Ogofâu	7%	6%	8%
Codi Hwyl Mewn Gemau	4%	6%	-
Dringo Dan Do neu yn yr Awyr Agored	31%	31%	32%
Criced	34%	30%	39%
Cyrlio	2%	-	2%
Beicio	70%	70%	71%
Dawns	40%	56%	25%
Pêl Osgoi	40%	38%	41%
Ffensio	3%	-	4%
Hoci Maes	24%	34%	16%
Pysgota neu Enweirio	16%	11%	22%
Dosbarthiadau Ffitrwydd	26%	35%	18%
Pêl Droed	68%	59%	79%
Pêl Gôl	2%	-	2%
Golff	28%	24%	32%
Gymnasteg	18%	28%	9%
Marchogaeth Ceffylau	24%	34%	14%
Hoci lâ	2%	-	2%
Jiwdo	4%	3%	6%

Carate	11%	8%	12%
Lacrosse	1%	-	-
Achub Bywyd	10%	10%	9%
Chwaraeon Modur	26%	19%	32%
Beicio Mynydd	34%	26%	42%
Pêl Rwyd	32%	49%	17%
Padlfyrddio	32%	37%	28%
Parkour	21%	13%	28%
Pŵl neu Snwcer	43%	37%	49%
Chwaraeon Rholio	14%	20%	7%
Rownderi, Pêl Fas neu Bêl Feddal	41%	42%	40%
Rhwyfo	10%	10%	10%
Rygbi	45%	37%	54%
Rhedeg neu Loncian	76%	77%	76%
Hwyllo	6%	5%	6%
Sglefrfyrddio	21%	23%	19%
Chwaraeon Eira	10%	11%	10%
Sboncen	8%	8%	8%
Syrffio	18%	18%	18%
Nofio	68%	70%	66%
Tennis Bwrdd	38%	37%	40%
Saethu Targedau	16%	12%	20%
Tennis neu Dennis Byr	41%	41%	42%
Trampolinio	39%	41%	36%
Triathlon	5%	4%	6%
Pêl Foli	13%	14%	12%
Polo Dŵr	11%	12%	10%
Codi Pwysau	29%	20%	38%
Pêl Fasged Cadair Olwyn	3%	-	3%
Rygbi Cadair Olwyn	-	-	-
Tennis Cadair Olwyn	-	-	-
Gwyntsyrffio	3%	2%	4%
Reslo	10%	6%	14%

Sylwer: Mae “-” yn cynrychioli llai na 30 o ymatebion wedi’u pwysoli, sy’n golygu na allwn adrodd yn fanwl gywir ar y ffigur %.

Atodiad C

Rhestr lawn o'r chwaraeon â galw cudd

Camp	Ceredigion	Canolbarth Cymru	Cymru
Saethyddiaeth	38%	38%	35%
Athletau	25%	25%	22%
Badminton	29%	30%	27%
Pêl Fasged	46%	46%	46%
BMX	23%	25%	24%
Boccia	2%	3%	3%
Bowlio	13%	14%	13%
Bocsio	28%	28%	30%
Canŵio a Chaiacio	33%	32%	26%
Crwydro Ogofâu	16%	19%	18%
Codi Hwyl Mewn Gemau	11%	12%	14%
Dringo Dan Do neu yn yr Awyr Agored	31%	34%	31%
Criced	29%	29%	25%
Cyrlio	7%	8%	7%
Beicio	50%	49%	44%
Dawns	25%	24%	25%
Pêl Osgoi	31%	33%	32%
Ffensio	15%	16%	14%
Hoci Maes	18%	16%	10%
Pysgota neu Enweirio	20%	19%	19%
Dosbarthiadau Ffitrwydd	18%	17%	18%
Pêl Droed	44%	45%	43%
Pêl Gôl	4%	4%	4%
Golff	28%	30%	28%
Gymnasteg	21%	20%	20%
Marchogaeth Ceffylau	29%	30%	28%
Hoci lâ	9%	10%	11%
Jiwdo	14%	15%	14%
Carate	21%	21%	22%

Lacrosse	6%	6%	5%
Achub Bywyd	16%	15%	14%
Chwaraeon Modur	38%	37%	32%
Beicio Mynydd	31%	31%	25%
Pêl Rwyd	24%	24%	20%
Padlfyrddio	32%	29%	23%
Parkour	28%	30%	30%
Pŵl neu Snwcer	34%	35%	32%
Chwaraeon Rholio	18%	19%	19%
Rownderi, Pêl Fas neu Bêl Feddal	27%	28%	22%
Rhwyfo	14%	14%	11%
Rygbi	27%	27%	21%
Rhedeg neu Loncian	38%	39%	37%
Hwyllo	12%	12%	12%
Sglefrfyrddio	22%	23%	23%
Chwaraeon Eira	23%	24%	21%
Sboncen	13%	14%	13%
Syrffio	30%	28%	26%
Nofio	54%	53%	48%
Tennis Bwrdd	37%	36%	32%
Saethu Targedau	27%	30%	27%
Tennis neu Dennis Byr	44%	43%	38%
Trampolinio	39%	42%	40%
Triathlon	12%	12%	10%
Pêl Foli	16%	18%	16%
Polo Dŵr	16%	16%	14%
Codi Pwysau	30%	29%	28%
Pêl Fasged Cadair Olwyn	5%	4%	3%
Rygbi Cadair Olwyn	3%	3%	3%
Tennis Cadair Olwyn	4%	5%	4%
Gwyntsyrrffio	12%	12%	11%
Reslo	16%	18%	18%

